**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

15 Awst 2023

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf ynghylch seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Helpodd buddsoddiad o £26 miliwn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu nifer fawr o ddyfeisiau gwefru sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru. Ni ariannodd y cyllid hwn bob un o'r 1,639 o bwyntiau gwefru a osodwyd hyd at mis Ebrill 2023.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cywiro ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor [mae copi o'r ymateb wedi'i gywiro ynghlwm]. Mae'r cyflwyniad nawr yn darllen "Ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ein Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan yn 2021, rydym wedi buddsoddi dros £26 miliwn mewn seilwaith gwefru ledled Cymru, a gyfrannodd at gynyddu nifer y dyfeisiau cyhoeddus o 120%. Roedd cyfanswm o 1,465 pwynt gwefru ar 1 Ionawr 2023".

Mae'r datganiad i'r wasg wedi bod yn y parth cyhoeddus ers dros fis. Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol yn disgrifio'n gliriach gyfanswm y pwyntiau gwefru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r holl bwyntiau gwefru a ariennir gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Ebrill 2023 cyn gynted ag y bydd y wybodaeth hon ar gael. Bydd y dadansoddiad yn cynnwys cyfanswm nifer y pwyntiau gwefru, eu lleoliadau priodol, y cyflymderau gwefru y maent yn eu cynnig, ac yn ôl awdurdod lleol.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.